

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf:

**Ysbyty'r Tywysog Siarl ac
Ysbyty Brenhinol
Morgannwg – Iechyd
Menywod a Phlant**

28 a 29 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|---|----|
| 1. | Cyflwyniad..... | 2 |
| 2. | Methodoleg | 3 |
| 3. | Cyd-destun..... | 6 |
| 4. | Crynodeb | 7 |
| 5. | Canfyddiadau | 9 |
| | Ansawdd Profiad y Claf | 9 |
| | Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol..... | 12 |
| | Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 20 |
| 6. | Y Camau Nesaf..... | 23 |
| | Atodiad A..... | 24 |

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r gyfarwyddiaeth iechyd menywod a phlant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 28 a 29 Mehefin 2015. Ymwelwyd â'r ysbytai a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty'r Tywysog Siarl:

- Ward 21 – Bydwreigiaeth
- Ward 31 – Pediatreg
- Ward 32 – Uned dderbyn/achosion dydd pediatrig
- Uned Gofal Arbennig Babanod

Ysbyty Brenhinol Morgannwg:

- Uned babanod newydd-anedig
- Ward 9 – Gynaecoleg
- Ward 10 – Obstetreg
- Ward 17 a 18 – Pediatreg
- Adran Cleifion Allanol Pediatrig

Sylwer y byddwn yn cyfeirio at Ysbyty'r Tywysog Siarl fel YTS ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg fel YBM yn ystod gweddill yr adroddiad hwn, i'w wneud yn hawdd i'w ddarllen.

2. Methodoleg

Mae gennym amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael i ni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu i ni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bod y sylw cynyddol a gynigir gan ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd yn erbyn tair thema:

- **Ansawdd Profiad y Claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad o'r gyfarwyddiaeth iechyd menywod a phlant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn cynnwys saith rheolwr arolygu AGIC, dau adolygwr cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan gyfarwyddwr clinigol a phennaeth arolygu AGIC.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau, a chyfweliadau gyda staff
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau gydag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd
- Ymatebion mewn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion mewn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach yn gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r ddarpariaeth o wasanaethau'n sicrhau urddas a gofal hanfodol.

3. **Cyd-destun**

Lleolir Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn ne Cymru, ychydig i'r gogledd i Gaerdydd, rhwng Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thraffordd yr M4. Mae'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, sydd, yn ôl yr amcangyfrif, tua 289,400 o bobl.

Mae ardal y bwrdd iechyd yn cynnwys pedair ardal leol. Mae tair ohonynt o fewn ardal Rhondda Cynon Taf, sef Cwm Cynon, Cwm Rhondda ac ardal Taf Elái. Merthyr Tudful yw'r bedwaredd ardal. Cwm Taf yw'r bwrdd iechyd ail fwyaf trwchus ei boblogaeth yng Nghymru, ac mae llawer o'i ardaloedd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn rheoli dau ysbyty cyffredinol dosbarth, pum ysbyty cymuned, a pharc iechyd prifysgol ar hyn o bryd.

4. Crynodeb

Roeddem yn gallu cadarnhau yn gyffredinol bod y gwasanaeth yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a oedd yn ddiogel, yn effeithiol, yn urddasol, ac yn brydlon. Fodd bynnag, nododd AGIC rai meysydd y mae angen i'r bwrdd iechyd eu hystyried a'u gwella.

Roedd y gyfarwyddiaeth iechyd menywod a phlant yn rhoi pwyslais sylweddol ar sicrhau bod pobl yn cael profiad cadarnhaol o wasanaethau a ddarperir ac yn gwneud pob ymdrech i gynnwys cleifion, eu teuluoedd a'u gofawyr yn y penderfyniadau a'r cynlluniau am eu hanghenion gofal iechyd cyfredol a pharhaus.

Roedd yn amlwg bod y gyfarwyddiaeth yn gwneud pob ymdrech i wrando ar bobl sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd. Roedd y gyfarwyddiaeth hefyd yn mynd ati'n ymarferol i ofyn am safbwyntiau pobl ar ansawdd ac effeithiolrwydd ei gwasanaethau.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y gyfarwyddiaeth yn cynnig gwasanaeth a oedd yn darparu gofal diogel a dibynadwy ac a oedd yn gyson â'r Safonau Iechyd a Gofal yn gyffredinol. Er enghraifft, dangoswyd o archwilio gwybodaeth a sgysiau gyda chleifion a'u perthnasau bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Nodwyd yr angen am rywfaint o welliant o ran mynediad prydlon at asesiadau argyfwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), elfennau atal a rheoli heintiau, agweddau ar reoli meddyginiaethau, a chadw cofnodion.

Canfuwyd gennym fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn amlwg, yn gryf, ac yn effeithiol yn y gyfarwyddiaeth iechyd menywod a phlant, wrth i uwch-nyrsys a rheolwyr wardiau roi disgrifiadau i ni o sut y maent yn ymdrechu i sicrhau safon uchel o ofal i'w cleifion. Yn yr holl fannau yr ymwelwyd â nhw, roedd y staff yn eglur ac yn wybodus am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau penodol ac yn mwynhau gweithio'n rhan o dimau a oedd wedi'u hen sefydlu.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod digon o staff, â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir, i ddiwallu anghenion pobl.

Dangosodd trafodaethau gydag amrywiaeth eang o staff ar draws y gyfarwyddiaeth, a chynnwys holiaduron staff AGIC a gwblhawyd, bod y bwrdd iechyd yn meithrin diwylliant o ddysgu ac unplygrwydd proffesiynol.

Cyflwynodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd o ganlyniad i'r arolygiad hwn. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod system briodol ar waith ar gyfer adnabod a diogelu'r holl gleifion ar draws y sefydliad bob amser. Ers hynny,

mae AGIC wedi derbyn ymateb boddhaol gan y bwrdd iechyd o ran ei drefniadau monitro a nodwyd a'r camau a gymerwyd yn dilyn ein canfyddiadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Er i ni nodi rhai meysydd i'r bwrdd iechyd eu hystyried, roeddem yn gallu cadarnhau yn gyffredinol bod y gwasanaeth yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a oedd yn ddiogel, yn effeithiol, yn urddasol, ac yn brydlon. Roedd y gyfarwyddiaeth iechyd menywod a phlant yn rhoi pwyslais sylweddol ar sicrhau bod pobl yn cael profiad cadarnhaol o wasanaethau a ddarperir ac yn gwneud pob ymdrech i gynnwys cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn y penderfyniadau a'r cynlluniau am eu hanghenion gofal iechyd cyfredol a pharhaus.

Roedd yn amlwg bod y gyfarwyddiaeth yn gwneud pob ymdrech i wrando ar bobl sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd. Roedd y gyfarwyddiaeth hefyd yn mynd ati'n ymarferol i ofyn am safbwyntiau pobl ar ansawdd ac effeithiolrwydd ei gwasanaethau.

Hawliau pobl

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol (Safon 6.2).

Yn ystod ein harolygiad, gwahoddwyd cleifion a/neu eu perthnasau gennym i gwblhau holiadur AGIC i ganfod eu safbwyntiau ar brofiadau cyfredol o'r gwasanaethau iechyd menywod a phlant yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn briodol. Mae holiaduron AGIC yn gofyn yn benodol am safbwyntiau cleifion ar amgylchedd y ward, agweddau staff yr ysbyty, a'r gofal a dderbyniwyd. Cwblhawyd 17 o holiaduron gan neu ar ran cleifion.

Roedd yr holiaduron a gwblhawyd yn dynodi yr ystyriwyd bod y wardiau'n lân ac yn daclus a bod staff yn gwrtais gyda chleifion, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Cadarnhaodd yr holiaduron hefyd fod staff wedi cymryd amser i sgwrsio â chleifion am eu gofal a'u triniaeth, a gynorthwyodd iddynt ddeall eu cyflyrau meddygol. Hefyd, cafwyd sylwadau cadarnhaol am agwedd broffesiynol y staff a'r gofal a dderbyniwyd gan gleifion a pherthnasau'n gyffredinol; cynigiwyd naw allan o uchafswm o ddeg pwynt ganddynt.

Canfuwyd gennym fod pobl yn derbyn gofal a chefnogaeth mewn ffordd garedig, urddasol, parchus a thosturiol. Roedd hyn oherwydd i ni arsylwi staff

wrth iddynt siarad â chleifion, plant a'u perthnasau. Cawsom sgwrs hefyd gyda chleifion a'u perthnasau yn ystod dau ddiwrnod ein harolygiad, a derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ar y ffordd yr ymatebodd staff i'w hanghenion gofal.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion gennym ym mhob un o'r meysydd clinigol yr ymwelwyd â nhw, a chanfuwyd y gallai cofnodion cynllunio gofal unigoledig fod wedi bod yn well (trafodir y mater hwn yn fwy manwl yn adran Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol yr adroddiad hwn). Roeddem yn gallu cadarnhau bod dull sy'n canolbwyntio ar y cleifion yn bodoli ar gyfer darparu gofal a oedd hefyd yn parchu hawliau unigol cleifion ar draws y gyfarwyddiaeth. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Cadarnhaodd rhieni babanod a oedd yn derbyn gofal yn yr Uned Babanod Newydd-anedig y gwnaed iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys bob amser. Mae hyn oherwydd iddynt gael eu hannog a'u cefnogi i barhau i gymryd rhan yng ngofal eu babanod (Uned Babanod Newydd-anedig a Ward 21 YTS)
- Y gofal a'r tosturi a ddangoswyd gan staff i rieni a oedd wedi dioddef anawsterau na ellid eu rhagweld yn gysylltiedig â'u beichiogrwydd a genedigaeth eu plentyn (Uned Babanod Newydd-anedig a Ward 21 YTS)
- Diwallwyd anghenion crefyddol penodol mam ar y ward (Ward 10 YBM)

Dangosodd sgysiau gyda staff yn y ddau ysbyty yr ymwelwyd â nhw fod gweithlu gwybodus ac angerddol a oedd yn rhoi pwyslais sylweddol ar y ddarpariaeth o ofal sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Er na nodwyd unrhyw bryderon sylweddol gennym o ran profiadau cleifion o'r ddarpariaeth o ofal iechyd, nodwyd y canlynol gennym:

- Roedd adborth mewn holiaduron AGIC wedi'u cwblhau a ddychwelwyd gan y ddau ysbyty yn dangos na chynigiwyd yr opsiwn o gyfathrebu â staff yn yr iaith o'u dewis gan bump o'r 17 claf
- Fe'n hysbyswyd gan rieni nad oedd gwybodaeth am y ward ar adeg derbyn y claf yn cael ei rhannu'n brydlon bob amser (Ward 17 YBM, pediatreg). Er enghraifft, ni wnaed rhieni'n ymwybodol i gychwyn bod ystafell chwarae ar gael, neu gyfleusterau a oedd ar gael iddyn nhw'n unig eu defnyddio wrth gefnogi eu plentyn yn yr ysbyty. Roedd diffyg gwybodaeth o'r fath yn golygu ei bod yn anodd i rai rhieni/cleifion ymgysylltu ag amgylchedd y ward o'r adeg derbyn. Hefyd, roedd rhieni wedi dechrau defnyddio cyfleusterau ward, fel toiledau, a fwriadwyd ar gyfer defnydd cleifion yn unig. Roedd y mater hwn yn creu'r perygl posibl o groes-heintio

- Roedd angen diweddarau rhywfaint ar y daflen i gleifion a oedd ar gael ar Wardiau 17 a 18 yn YBM
- Nid oedd cyfleusterau i alluogi rhieni i orffwyo dros nos (fel y ddarpariaeth o wely/cadair gyfforddus a gobenyddion) yn addas yn Ward 17 YBM. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai pobl yn cael eu cynorthwyo i fod mor gyfforddus â phosibl
- Roedd y bwrdd iechyd wedi cyflwyno menter a oedd yn galluogi 'partneriaid' i aros dros nos yn rhannau ôl-enedigol wardiau mamolaeth. Er i ni gael ein hysbysu bod hyn yn gweithio'n dda yn YBM, roedd yr adborth a dderbyniwyd ar y fenter hon yn YTS yn llai cadarnhaol. Roedd y prif faterion a oedd yn peri pryder yn ymwneud â'r diffyg lle a oedd ar gael a'r diffyg cyfleusterau ymolchi yn YTS. Bydd y fenter hon yn cael ei gwerthuso gan y bwrdd iechyd cyn ei chyflwyno'n llawn
- Fe'n hysbyswyd gan deuluoedd â phlant bach a oedd yn defnyddio'r ystafell aros yn yr adran cleifion allanol yn YBM y byddai eu profiad yn well pe bai amrywiaeth ehangach o deganau ar gael i blant iau

Trafodwyd bob un o'r materion uchod gyda rheolwyr y wardiau ac uwch-reolwyr yn ystod yr arolygiad, a mynegwyd parodrwydd ganddynt i geisio gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cyn belled â phosibl mewn ymateb i'n canfyddiadau.

Gwrando a dysgu o adborth

Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono (Safon 6.3).

Gwelsom gofnodion a rhyngweithio rhwng cleifion a staff a oedd yn dangos bod adborth ffurfiol ac anffurfiol gan gleifion a'u teuluoedd yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Roedd hyn yn cynnwys holiaduron cleifion ysbyty, ymatebion i gwynion, a chardiau diolch. Yn fwy penodol, rhoddwyd enghraifft i ni o le'r oedd yr hyn a ddysgwyd o gŵyn wedi cael ei rannu ar draws y gyfarwyddiaeth er mwyn gwella perfformiad. Fe'n hysbyswyd hefyd y rhannwyd manylion y digwyddiad gyda'r tîm gweithredol fel ffordd o hybu dysgu a datblygiad ar draws y sefydliad.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y gyfarwyddiaeth yn cynnig gwasanaeth a oedd yn darparu gofal diogel a dibynadwy a oedd yn gyson â'r Safonau Iechyd a Gofal yn gyffredinol. Er enghraifft, dangoswyd o archwilio gwybodaeth a sgysiau gyda chleifion a'u perthnasau bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Nodwyd yr angen am rywfaint o welliant o ran mynediad prydlon at asesiadau argyfwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), elfennau atal a rheoli heintiau, agweddau ar reoli meddyginiaethau, a chadw cofnodion.

Cadw'n iach

Mae pobl wedi'u grymuso ac yn cael eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac mae gofalwyr am unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd (Safon 1.1).

Canfuwyd bod gwybodaeth hybu iechyd priodol ar gael yn bron i bob man i ni ymweld ag ef ac mewn mannau aros cyhoeddus. Dangosodd sgysiau gyda staff eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd hybu iechyd yn eu gwaith gyda menywod, plant a rhieni. Caiff bwydo ar y fron ei hyrwyddo a'i gefnogi ar y ddau safle hefyd. Er enghraifft, roedd ystafelloedd ar gael i alluogi a chefnogi mamau ac aelodau staff (a oedd newydd ddychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth) i fwydo ar y fron a/neu dynnu llaeth.

Arweiniodd sgysiau gyda nifer o gleifion a rhieni at gadarnhad eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu gofal a'u triniaeth neu'r gofal a'r driniaeth yn ymwneud â'u perthynas/plentyn.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal (Safon 2.1).

Fe'n hysbyswyd gan staff y bu nifer gynyddol o heriau yn ddiweddar ar Wardiau 17 a 18 (YBM) lle y bu angen cefnogaeth arnynt ar gyfer cleifion â phroblemau

iechyd meddwl, yn enwedig ar benwythnosau. Fodd bynnag, nid oedd staff wedi gallu cael mynediad at wasanaethau CAMHS yn brydlon, a allai fod wedi effeithio'n negyddol ar y ddarpariaeth o ofal i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddangos sut y bydd yn sicrhau bod gan staff pediatrig well mynediad at CAMHS yn y dyfodol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion ag anghenion a nodwyd yn derbyn cefnogaeth brydlon ac effeithiol.

Gwelsom nad oedd gan ddau glaf (plant) ar Ward 31 YTS y bandiau adnabod gofynnol. Datgelodd trafodaethau gyda'r staff fod y ddau blentyn wedi cael eu derbyn i'r ward o'r adran damweiniau ac achosion brys. Fe'n hysbyswyd hefyd bod cyfrifiadur y ward wedi torri yn ystod y nos, a oedd yn golygu na ellid argraffu bandiau oddi ar y system. Mae hwn yn fater diogelwch, ac felly tynnwyd sylw'r nyrs gyfrifol ato a chafodd y mater ei ddatrys yn brydlon.

Cyflwynodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod system addas ar waith ar gyfer adnabod a diogelu'r holl gleifion ar draws y sefydliad bob amser. Ers hynny, mae AGIC wedi derbyn ymateb boddhaol gan y bwrdd iechyd o ran ei drefniadau monitro a nodwyd a'r camau a gymerwyd yn dilyn ein canfyddiadau.

Gwelsom wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn cadarnhau bod rheoli risg ac iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n dda ar draws y gyfarwyddiaeth.

Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal (Safon 2.4).

Canfuwyd gennym fod cyfleusterau golchi dwylo priodol ym mhob man yr ymwelwyd ag ef a bod glanhawyr yr ysbytai'n cael eu neilltuo i fannau clinigol penodol, a oedd yn golygu bod dull cyson o fodloni'r safonau glendid a hylendid sy'n ofynnol yn eu meysydd gwaith. Hefyd, gwelwyd bod staff yn gwisgo menig a ffedogau ar adegau priodol wrth ddarparu gwasanaethau.

Canfuwyd gennym fod archwiliadau rheoli heintiau a gwaith monitro'n cael eu gwneud yn rheolaidd a bod cyngor a chefnogaeth rheoli heintiau arbenigol ar gael i staff yn ôl y gofyn. Mae hyn yn golygu bod gan yr adran system ar waith i nodi meysydd o bryder ac i wneud gwelliant parhaus cyn belled â phosibl.

Fodd bynnag, nodwyd y problemau canlynol gennym:

- Canfuwyd bocsys o gyflenwadau di-haint wedi'u storio'n uniongyrchol ar lefel y llawr (Uned Babanod Newydd-anedig, YTS)
- Gwelsom ystafell ymolchi ar ward lle'r oedd growt a bocsbwrdd sglodion wedi llwydo o gwmpas y toiled, a oedd yn hydraidd ac yn athraidd (Ward 21 YTS)
- Roedd difrod dŵr yng nghegin y ward (Ward 21 YTS), a bwrdd sglodion wedi chwyddo a staenio ar gypyrddau'r gegin, a oedd yn ei gwneud yn anodd glanhau'r ardal
- Canfuwyd bod trefniadau anghyson ar waith ar gyfer glanhau teganau'n rheolaidd (Wardiau 17 a 18 YBM)

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau atal a rheoli heintiau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf (Safon 2.5).

Canfuwyd gennym fod pobl yn cael eu cefnogi'n dda i ddiwallu eu hanghenion maethol a hydradu ar bob adeg o'r dydd a'r nos. Gwelsom fod cleifion yn cael cynnig dewis amrywiol o fwyd maethlon wedi'i gyflwyno'n dda. Roedd cyfleoedd hefyd i bobl brynu eu bwyd/diodydd eu hunain mewn mannau yn y ddau ysbyty. Fodd bynnag, gwelsom y gadawyd y droli bwyd poeth heb ei goruchwyllo tra oedd yr aelod o staff yn mynd â bwyd i gleifion (Ward 21 YTS). Roedd hyn yn golygu bod posibilrwydd o anaf i gleifion neu ymwelwyr o arwyneb poeth yr offer.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y trefniadau sydd ar waith ar gyfer goruchwyllo'r droli bwyd poeth. Mae hyn er mwyn sicrhau ac amddiffyn diogelwch cleifion ac ymwelwyr.

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir (Safon 2.6).

Er i ni ganfod bod cofnodion meddyginiaeth cleifion yn dangos yn gyffredinol bod eu meddyginiaeth presgripsiwn yn cael ei rhoi'n briodol, nodwyd amrywiaeth o feysydd lle mae angen gwella gennym hefyd:

- Nid oedd staff yn cofnodi y rhoddwyd ocsigen presgripsiwn yn y wardiau pediatrig yn YBM (trafodwyd hyn gyda rheolwr y ward yn ystod ein harolygiad a chymerwyd camau cywiro'n brydlon)
- Nid oedd y system bresgripsiynau electronig yn galluogi staff i gynnal archwiliad ar yr erchwyn o hunaniaeth y claf yn erbyn y cofnod rhoi meddyginiaeth ar yr adeg pan oedd meddyginiaethau presgripsiwn yn cael eu rhoi i'r claf (Uned Babanod Newydd-anedig, YBM). Gallai hyn arwain at gamgymeriadau wrth roi meddyginiaeth. Cadarnhaodd trafodaethau gyda staff na fu unrhyw gamgymeriadau o'r fath. Fodd bynnag, cysylltodd AGIC â'r bwrdd iechyd eto am y mater hwn ar ôl cwblhau'r ymweliad arolygu er mwyn sicrhau bod canllawiau rheoli meddyginiaeth cyfredol yn cael eu hadolygu gyda chefnogaeth staff fferyllol
- Ni allai rhai staff mewn un man gael mynediad at bolisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd ar lefel y ward (Uned Babanod Newydd-anedig, YTS). Roedd hyn yn golygu nad oedd ganddynt fynediad at wybodaeth berthnasol i'w cefnogi yn eu gwaith
- Roedd achosion pan nad oedd y llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei lofnodi gan ddau aelod o staff yn unol â pholisi rheoli meddyginiaethau cyfredol y bwrdd iechyd (Ward 21 YTS). Roedd hyn yn golygu bod posibilrwydd o wneud camgymeriadau
- Nid oedd y llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei wirio'n feunyddiol yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd (Ward 21 YTS)
- Roedd adegau pan nad oedd cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio gan ddwy fydwraig cyn eu rhoi
- Nid oedd clo ar ddrws yr ystafell feddyginiaeth (Ward 31 YTS). Roedd hyn yn golygu y gallai unigolion heb awdurdod gael mynediad at yr ystafell a oedd yn cynnwys eitemau a allai fod yn beryglus i blant
- Nid oedd drws yr ystafell feddyginiaeth ar Ward 21 YTS ar glo

- Nid oedd tymheredd oergelloedd yn cael eu monitro'n feunyddiol ar Ward 31 YTS. Mae hyn yn golygu y gellid peryglu cyflwr meddyginiaeth a gedwir yn y fan honno
- Gwelsom fod y cypyrddau cyffuriau a reolir ar Ward 21 YTS a'r wardiau pediatrig yn YBM wedi eu gwneud o fwrdd sglodion yn hytrach na metel. Nid oedd hyn yn gyson ag arfer da
- Nid oedd y drws i'r ystafell feddyginiaeth ar glo ac roedd chwistrellau'n hygyrch (ward ddydd plant/uned asesu YTS). Fodd bynnag, nodwyd bod y feddyginiaeth yn yr ystafell honno yn ddiogel a dan glo
- Canfuwyd stoc fach o hen boteli sbesimen gwaed (meithrin) ar ward ddydd plant/uned asesu YTS. Roedd hyn yn golygu bod posibilrwydd o ganlyniadau profion gwaed anghywir pe baent yn cael eu defnyddio. Tynnwyd sylw'r staff at hyn fel y gellid eu symud o'r ardal glinigol a'u newid
- Roedd diffyg lle yn gyffredinol a dim arwyneb pwrpasol ar gyfer paratoi meddyginiaethau yn uned ddydd gynenedigol YTS
- Canfuwyd clo wedi torri ar gwprdd cyffuriau (Ward 17 YBM). Fodd bynnag, cafodd y broblem hon ei datrys yn ystod yr arolygiad

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau meddyginiaethau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg (Safon 2.7).

Canfuwyd gennym fod y gyfarwyddiaeth wedi sefydlu trefniadau priodol i hybu lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed. Er enghraifft, roedd staff yn ymwybodol o ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ac roedd systemau priodol ar waith i wneud staff yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth benodol yn ymwneud â chleifion yn hyn o beth.

Gofal effeithiol

Wrth gyfathrebu gyda phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol (Safon 3.2).

Mae gwasanaethau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'n barhaus trwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymchwil a sicrhau ei bod yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau (Safon 3.3).

Canfuwyd gennym fod cyfathrebiad yn briodol i oedran ac wedi ystyried gallu pobl i gymryd rhan mewn sgysiau am iechyd. Cadarnhaodd y rhieni i ni siarad â nhw fod staff wedi rhannu gwybodaeth â nhw mewn ffordd yr oeddent yn ei deall ac a oedd yn eu helpu i wneud dewisiadau cytbwys am eu dyfodol. Fe'n hysbyswyd gan gleifion mewn mannau eraill hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth a chefnogaeth dda.

Canfuwyd enghreifftiau gennym hefyd o arfer da a gynorthwyodd i hybu gofal diogel a chlinigol effeithiol ymhellach.

Er enghraifft:

- Roedd 'pecyn aros i mewn', a ddatblygwyd yn lleol, yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol i staff nyrsio eu cwblhau pan fo cleifion yn aros am gyfnodau hwy o amser ar y ward
- Roedd y gyfarwyddiaeth iechyd menywod a phlant yn mabwysiadu defnydd ystyrion o adborth o arolygon cleifion a staff i hybu arloesedd a gwelliant
- Roedd y gyfarwyddiaeth yn arwain gweithrediad Sepsis Six¹
- Defnydd o archwiliad y dull sbardun pediatrig a oedd yn ymwneud ag archwilio 20 set o nodiadau yn rheolaidd gyda mewnbwn meddygon ymgynghorol i fonitro cynnydd a hybu gwelliant

¹ **Sepsis Six** yw'r enw a roddir i fwndel o therapiau meddygol sydd â'r nod o leihau marwolaeth ymhlith cleifion â sepsis. Mae **sepsis** yn gyflwr cyffredin sy'n cael ei sbarduno gan haint ac a all fod yn fygythiad i fywyd. Mae Sepsis Six yn cynnwys tri cham diagnostig a thri cham therapiwtig – y cwbl i gael eu darparu o fewn awr i'r diagnosis cychwynnol o sepsis.

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol (Safon 3.5).

Gwelsom fod cofnodion yn eglur ac yn gynhwysfawr yn y rhan fwyaf o feysydd. Roedd enghreifftiau penodol o arfer da yn cynnwys cynllunio gofal ym maes pediatreg a nodiadau beunyddiol ar gynnydd yn YTS. Fodd bynnag, canfuwyd rhywfaint o anghysondeb gennym ar draws y gyfarwyddiaeth:

- Nid oedd unrhyw gynlluniau gofal penodol ar waith ar gyfer menywod ôl-enedigol ar Ward 21 YTS; yn hytrach, roedd nodiadau llwybr mamolaeth yn cael eu defnyddio (ac eithrio rhai achosion cymhleth)
- Gwelsom fod rhai nodiadau clinigol a gwblhawyd gan staff meddygol yn annarllenadwy, a allai arwain at gamddealltwriaeth gan aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol (Ward 21 YTS)
- Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion yn y ddau ysbyty nad oedd staff meddygol bob amser yn ysgrifennu eu swyddogaeth wrth ochr eu llofnod yn y nodiadau fel sy'n ofynnol
- Mae Ward 21, yn seiliedig ar gytundeb lleol, yn defnyddio nodiadau llwybr mamolaeth. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod y broses o gofnodi cynlluniau gofal ac asesiadau risg ar Ward 21 YTS yn anghyson. Yn fwy penodol, nid oedd cofnodion cleifion yn ymwneud â gofal ôl-enedigol yn adlewyrchu'n eglur cymhlethdod anghenion cleifion, ac roedd diffyg gwybodaeth berthnasol arall, fel amgylchiadau cartref cleifion. Hefyd, roedd dogfennau asesu a chynllunio gofal ar gyfer cleifion ôl-enedigol yn gryno iawn ac weithiau'n wag
- Roedd y cynlluniau gofal a welwyd ar Ward 17 YBM yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig a oedd yn golygu nad oeddent yn ganllaw da i'r tîm staff o ran darparu gofal
- Prin oedd y dystiolaeth o asesiadau a chynllunio gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac roedd manylion yn arbennig o brin o ran asesiadau codi a chario (Ward 17 YBM)
- Nid oedd asesiadau gofal cleifion arosiadau hwy yn cael eu diweddarau (Ward 17 YBM)

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau cadw cofnodion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn.

Nodwyd pryderon am ddogfennau fel thema benodol hefyd yn ystod ein rhaglen o Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol yn y bwrdd iechyd yn ystod 2014/15. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r problemau penodol a ganfuwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylai'r bwrdd iechyd hefyd ystyried cynnal gwerthusiad ehangach o effeithiolrwydd ei drefniadau cadw cofnodion cleifion. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sylfaenol yn hyn o beth ac yn lleihau'r tebygolrwydd o nodi pryderon tebyg mewn arolygiadau yn y dyfodol.

Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir (Safon 5.1).

Ni archwiliwyd y safon hon yn fanwl; fodd bynnag, nodwyd rhai pryderon yn ymwneud â phrydlondeb rhai asesiadau. Canfuwyd gennym yn benodol y bu oediadau cyn sicrhau asesiadau therapi lleferydd ac iaith ar gyfer rhai cleifion a oedd ag anawsterau llyncu a nodwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod cleifion yn derbyn asesiadau prydlon yn dilyn atgyfeiriad at wasanaethau therapi lleferydd ac iaith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuwyd gennym fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn amlwg, yn gryf ac yn effeithiol yn y gyfarwyddiaeth iechyd menywod a phlant, wrth i uwch-nyrsys a rheolwyr wardiau roi disgrifiadau i ni o sut y maent yn ymdrechu i sicrhau safon uchel o ofal i'w cleifion. Yn yr holl fannau yr ymwelwyd â nhw, roedd y staff yn eglur ac yn wybodus am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau penodol ac yn mwynhau gweithio'n rhan o dimau a oedd wedi'u hen sefydlu.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod digon o staff, â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir, i ddiwallu anghenion pobl.

Dangosodd trafodaethau gydag amrywiaeth eang o staff ar draws y gyfarwyddiaeth, a chynnwys holiaduron staff AGIC a gwblhawyd, fod y bwrdd iechyd yn meithrin diwylliant o ddysgu ac unplygrwydd proffesiynol.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen (Safon 7.1).

Fe'n hysbyswyd nad oedd lefelau staffio yn un maes yn bodloni gofynion Birthrate Plus² (Ward 21 YTS). Cydnabuwyd gan y bwrdd iechyd hefyd ei fod yn wynebu heriau parhaus o ran recriwtio staff. Fodd bynnag, gwelsom staff yn gweithio ar draws y gyfarwyddiaeth i ddarparu cefnogaeth i gleifion yn ôl yr angen.

Yn ystod ein harolygiad, gwahoddwyd staff i gwblhau ein holiadur staff i'n hysbysu am eu profiad o weithio yn y bwrdd iechyd. Gofynnwyd i'r staff am eu safbwyntiau ar eu datblygiad proffesiynol, gofal cleifion, y bwrdd iechyd, a'u

² Dull penodol i faes bydwreigiaeth yw Birthrate Plus sy'n cynorthwyo i gyfrifo niferoedd a chymysgedd sgiliau bydwreigiaeth.

https://www.rcm.org.uk/sites/default/files/Birthrate%20Plus%20Report%2012pp%20Feb%202014_3.pdf

rheolwr. Cwblhawyd 38 o holiaduron AGIC gan staff o bob rhan o'r tîm amlddisgyblaethol yn y saith ward a arolygwyd.

Dywedodd mwyafrif y staff eu bod wedi cwblhau hyfforddiant, dysgu neu ddatblygiad mewn pynciau gorfodol fel: ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân, iechyd a diogelwch, a rheoli heintiau.

Dywedodd yr holl staff fod yr hyfforddiant yr oeddent wedi ei dderbyn wedi eu helpu i wneud eu swyddi'n fwy effeithiol ac i ddarparu gwell profiad i'r claf.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan nyrs dan hyfforddiant hefyd, a oedd yn uchel ei chlod i'w phrofiad mewn nifer o leoliadau yn y gyfarwyddiaeth.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy (Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2, Tudalen 8).

Cawsom sgrysiâu gyda staff uwch ym mhob un o'r meysydd clinigol i ni eu harolygu, a dangosodd pob un ohonynt wybodaeth ragorol am eu maes cyfrifoldebau. Dynododd trafodaethau ag aelodau eraill o staff hefyd fod cyfathrebu'n effeithiol ar draws y gyfarwyddiaeth. Canfuwyd hefyd ethos cadarnhaol ac agwedd amlbroffesiwn at waith tîm, ynghyd â phwyslais ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau i gleifion.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth rhwng y tîm rheoli sydd ar gael ar y safle yn ystod y penwythnosau o'i gymharu â diwrnodau gwaith. Yn benodol, ceir nifer ac amrywiaeth lai o raddau clinigol a rheoli. Er bod system ar-alwad ar gyfer uwch-reolwyr ac uwch-glinigwyr yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau rheoli ar benwythnosau'n ddigonol i gynnal y ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol.

Canfuwyd gennym fod gan y gyfarwyddiaeth systemau priodol ar gyfer cofnodi, monitro ac adolygu digwyddiadau clinigol, gyda mewnbwn cefnogol gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. Roedd hyn yn golygu bod mecanweithiau ar waith i ddysgu o ddigwyddiadau ac i leihau'r perygl o gael yr un digwyddiadau dro ar ôl tro.

Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion ar draws y gyfarwyddiaeth a thrafodaethau gyda staff a chleifion/rhieni y pwyslais a roddir ar ddull cydweithredol o gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. Er enghraifft, canfuwyd

gennym fod y staff ysbyty wedi creu cysylltiadau da gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol cymunedol fel y gellid cefnogi cleifion a'u teuluoedd ar ôl eu rhyddhau.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/unedau eraill y bwrdd iechyd.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol:Cynllun Gwella

Ysbyty:

Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog

Siarl

Ward/Adran:

Y Gyfarwyddiaeth Iechyd Menywod a Phlant

Dyddiad yr Arolygiad:

28 a 29 Mehefin 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|--|
| Ansawdd Profiad y Claf | | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | |
| Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol | | | | |
| 13 | <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddangos sut y bydd yn sicrhau bod gan staff pediatrig well mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed (CAMHS) yn y dyfodol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion ag anghenion a nodwyd yn derbyn cefnogaeth brydlon ac effeithiol.</p> | <p>Mae'r gwasanaeth CAMHS yn darparu dau aelod ar alwad, ac mae'r ail aelod bob amser yn ymgynghorydd.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae rheolwr CAMHS hefyd ar alwad y tu allan i oriau pe bai unrhyw broblemau cyfathrebu neu broblemau mynediad yn codi.</p> <p>Mae gweithiwr proffesiynol penodedig ar gael bob dydd i lenwi ar gyfer Pediatreg a Damweiniau ac Achosion Brys, ac os derbynnir atgyfeiriad cyn hanner dydd, bydd y claf yn cael ei adolygu ar yr un diwrnod. Os derbynnir yr atgyfeiriad ar ôl hanner dydd, bydd y claf yn cael ei weld yn hwyrach ar y diwrnod hwnnw os yn bosibl, neu ar y diwrnod canlynol. Bydd cydymffurfiaeth â hyn yn cael ei fonitro gan ddefnyddio'r system adrodd am ddigwyddiad, DATIX, a fydd yn nodi unrhyw achos o oediad mewn asesiad CAMHS i blentyn yn amserol. Caiff hyn ei fonitro at ddibenion sicrwydd yn y</p> | <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Pennaeth Nyrsio Uwch-nyrs Rheolwyr ward</p> | <p>30 Awst 2015</p> <p>Tachwedd 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|------------------|----------|
| | | <p>Fforwm Ansawdd a Diogelwch Plant a Phobl Ifanc.</p> <p>Yn fwy diweddar, fel rhan o'r cyllid £7.6m gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd ar gael i wasanaethau CAMHS, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wrthi'n paratoui ei gynllun ar sut mae'n bwriadu defnyddio'i ddyraniad o'r cyllid i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwy ar 27 Awst 2015. Bydd hyn yn cynnwys dau staff cyfwerth ag amser cyflawn Band 7 a dau staff cyfwerth ag amser cyflawn Band 6 a fydd yn nyrsys cyswllt argyfwng i gefnogi Damweiniau ac Achosion Brys, Peditreg a gwasanaethau cyffredinol. Bydd hyn yn gwella'r gwasanaethau yn y dyfodol trwy ddarparu tîm pwrpasol gyda gwell mynediad ar gyfer cymorth a chynghor ac i ddarparu hyfforddiant i'r holl staff yn ogystal ag asesu cleifion yn brydlon yn ôl yr angen, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd o argyfwng.</p> | | |
| 14 | Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|--|--|---|
| | <p>canfyddiadau atal a rheoli heintiau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canfuwyd bocsys o gyflenwadau di-haint wedi'u storio'n uniongyrchol ar lefel y llawr (Uned Babanod Newydd-anedig, Ysbyty'r Tywysog Siarl) • Gwelsom ystafell ymolchi ar ward lle'r oedd growt a bocs bwrdd sglodion wedi llwydo o gwmpas y toiled, a oedd yn hydraidd ac yn athraidd (Ward 21, Ysbyty'r Tywysog Siarl) • Roedd difrod dŵr yng nghegin y ward (Ward 21, Ysbyty'r Tywysog Siarl), a bwrdd sglodion wedi chwyddo a staenio ar gypyrddau'r gegin, a oedd yn ei | <p>Mae'r holl focsys o gyflenwadau di-haint yn awr yn cael eu storio oddi ar y llawr ar arwynebau priodol neu mewn cypyrddau. Cynhelir gwiriadau amgylcheddol bob wythnos ac ar sail ad-hoc i sicrhau cydymffurfiad, a phan fydd cyflenwadau'n cael eu derbyn, nid ydynt yn cael eu rhoi ar y llawr.</p> <p>Rhoddir adborth i staff am gydymffurfiaeth yn y cyfarfodydd tîm.</p> <p>Hysbyswyd Pennaeth Ystadau, cafwyd ymateb yn syth, ac mae gwaith yn mynd rhagddo, i gael ei gwblhau cyn diwedd mis Awst.</p> <p>Bydd gwasanaethau gwesty'n sicrhau bod y toiledau/ystafelloedd ymolchi'n cael eu gwirio bob wythnos. Adborth i reolwyr y wardiau.</p> <p>Hysbyswyd Pennaeth Ystadau, cafwyd ymateb yn syth, ac mae gwaith yn mynd rhagddo, i gael ei gwblhau cyn diwedd mis Awst.</p> <p>Cynhelir archwiliadau rheolaidd gan y Tîm</p> | <p>Uwch-nyrs Rheolwr yr uned Holl staff</p> <p>Pennaeth Ystadau</p> <p>Gwasanaethau gwesty</p> <p>Pennaeth Ystadau</p> <p>Goruchwylwyr</p> | <p>30 Awst 2015</p> <p>30 Awst 2015</p> <p>30 Awst 2015</p> <p>30 Awst 2015</p> <p>31</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|--|--|
| | <p>gwneud yn anodd glanhau'r ardal</p> <ul style="list-style-type: none"> Canfuwyd bod trefniadau anghyson ar waith ar gyfer glanhau teganau'n rheolaidd (Wardiau 17 a 18, Ysbyty Brenhinol Morgannwg) | <p>Gwasanaethau Gwesty i sicrhau glendid a bod yr ardaloedd mewn cyflwr da. Adborth i reolwyr y wardiau.</p> <p>Mae canllawiau ar waith ar gyfer glanhau teganau ar gyfer Ward 17 ac 18, ac mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa o'r rhain.</p> <p>Mae'r canllawiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan yr uwch-nyrs. Bydd y canllaw adolygedig yn berthnasol i'r holl ardaloedd, a bydd staff yn cael eu hysbysu o'r canllawiau diweddaraf er mwyn i arfer fod yn gyson yn y dyfodol.</p> | <p>Gwasanaethau Gwesty</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwyr ward</p> | <p>Gorffennaf 2015</p> <p>30 Awst 2015</p> <p>31 Hydref 2015</p> |
| 14 | <p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y trefniadau sydd ar waith ar gyfer goruchwylio'r troli bwyd poeth. Mae hyn er mwyn sicrhau ac amddiffyn diogelwch cleifion ac ymwelwyr.</p> | <p>Sgôr asesiad risg < 8. O fewn Mamolaeth, bydd mwyafrif y cleifion yn iach ac yn gallu symud yn iawn, ac fe'u gwahoddir i ddod at y troli bwyd, dewis eu bwyd, a mynd â'u hambwrdd at y gwely. Dylai'r troli bwyd fod dan oruchwyliaeth y staff cadw tŷ bob amser. Gall partneriaid/perthnasau merched sydd yn methu symud roi cymorth iddynt (gydag ymweld agored ar gyfer partner/unigolion eraill o bwys) i gasglu eu bwyd o'r troli neu'r fydwraig</p> | <p>Rheolwr y ward</p> | <p>31 Gorffennaf 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|--|---|---------------------|
| | | <p>sy'n gyfrifol am eu gofal. Mae amserau ymweld ar gyfer perthnasau eraill a phlant wedi cael eu haddasu i sicrhau eu bod yn dod i ben cyn amseroedd bwyd a dyfodiad y troli bwyd i leihau nifer yr ymwelwyr yn yr uned ac i amddiffyn eu diogelwch, yn arbennig mewn perthynas â phlant/brodyr a chwirydd sy'n ymweld.</p> <p>Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau iechyd a diogelwch mewn perthynas â hyn.</p> | | |
| 16 | <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau meddyginiaethau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd staff yn cofnodi y rhoddwyd ocsigen presgripsiwn yn y wardiau pediatrig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (trafodwyd hyn gyda rheolwr y ward yn ystod ein harolygiad a chymerwyd camau cywiro'n brydlon) | <p>Mae Siartiau Meddyginiaeth Bediatrig Cymru Gyfan wedi cael eu diweddar'u'n ddiweddar i gynnwys rhagnodi ocsigen. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i bob ward bediatrig ledled Cymru. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wrthi'n gweithredu hyn ar wardiau'r plant, ac mae'n cynnwys darparu hyfforddiant ac addysg ychwanegol i'r holl staff. Bydd cofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal, a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Sefydlu</p> | <p>Cyfarwyddwr Clinigol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwr ward</p> | <p>30 Medi 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|--|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd y system bresgripsiynau electronig yn galluogi staff i gynnal archwiliad ar yr erchwyn o hunaniaeth y claf yn erbyn y cofnod rhoi meddyginiaeth ar yr adeg pan oedd meddyginiaethau presgripsiwn yn cael eu rhoi i'r claf (Uned Babanod Newydd-anedig, Ysbyty Brenhinol Morgannwg). Gallai hyn arwain at gamgymeriadau wrth roi meddyginiaeth. Cadarnhaodd trafodaethau gyda staff na fu unrhyw gamgymeriadau o'r fath. Fodd bynnag, cysylltodd AGIC â'r bwrdd iechyd eto am y mater hwn ar ôl cwblhau'r ymweliad arolygu er mwyn sicrhau bod canllawiau rheoli meddyginiaeth cyfredol yn cael eu hadolygu gyda chefnogaeth staff fferyllol Ni allai rhai staff mewn un man gael | <p>Meddygon. Yn y cyfamser, cyn y lansiad yn dilyn y diwrnod hyfforddiant ym mis Medi, mae gweinyddu ocsigen wedi'i ragnodi yn cael ei gofnodi yn y cofnodion meddygol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw addasiadau a wneir mewn ymateb i'r lefelau dirlawnder ocsigen fel y nodir yng nghynllun gofal y claf.</p> <p>Mae'r canllawiau'n cael eu hadolygu ar y cyd gan staff yr adran newydd-anedig a staff fferyllol.</p> <p>Mae'r Polisi Rheoli Meddyginiaeth ar gael i'r holl staff ar Sharepoint. Cafodd hyn ei wirio</p> | <p>Uwch-nyrs</p> <p>Fferylllydd sy'n arwain</p> <p>Uwch-nyrs Rheolwyr ward</p> | <p>30 Medi 2015</p> <p>Gorffennaf</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|--|--|--|
| | <p>mynediad at bolisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd ar lefel y ward (Uned Babanod Newydd-anedig, Ysbyty'r Tywysog Siarl). Roedd hyn yn golygu nad oedd ganddynt fynediad at wybodaeth berthnasol i'w cefnogi yn eu gwaith</p> <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="259 703 896 983">• Roedd achosion pan nad oedd y llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei lofnodi gan ddau aelod o staff yn unol â pholisi rheoli meddyginiaethau cyfredol y bwrdd iechyd (Ward 21, Ysbyty'r Tywysog Siarl). Roedd hyn yn golygu bod posibilrwydd o wneud camgymeriadau <li data-bbox="259 1161 896 1318">• Nid oedd y llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei wirio'n feunyddiol yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd (Ward 21, Ysbyty'r Tywysog Siarl) | <p>gan yr uwch-nyrs ar y diwrnod yn dilyn yr arolygiad. Atgoffwyd yr holl staff o sut i fynd at bolisiau, gweithdrefnau a chanllawiau mewn cyfarfodydd tîm a chylchlythyrau, a chaiff hyn ei fonitro yn eu Cofnodion Datblygiad Personol.</p> <p>Atgoffwyd yr holl staff o'r weithdrefn gywir yn unol â'r Polisi Rheoli Meddyginiaeth a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer Gweinyddu Meddyginiaethau. Dosbarthwyd nodyn i'r holl staff trwy e-bost. Rhoddwyd y nodyn yn yr holl ardaloedd clinigol, ac mae'n cael ei gynnwys yn y Briff Diogelwch wrth drosglwyddo gofal ar ddiwedd sifft.</p> <p>Cynhaliwyd gwiriad ar hap y tu allan i oriau gan yr uwch-fydwraig ar 4 Awst 2015. Cafodd yr holl weithdrefnau eu hadolygu a'u hasesu i fod yn cydymffurfio â'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau, a derbyniwyd sicrwydd. Bydd monitro a gwiriadau ar hap yn parhau'n</p> | <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Uwch-fydwraig</p> | <p>2015</p> <p>31 Gorffennaf 15</p> <p>4 Awst 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|--|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> Roedd adegau pan nad oedd cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio gan ddwy fydwraig cyn eu rhoi | <p>rheolaidd.</p> <p>Bydd diffyg cydymffurfio â'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau'n cael ei hysbysu i'r uwch-fydwraig a'r goruchwilydd bydwragedd, a bydd yn cael ei nodi ar DATIX a'i ymchwilio a'i drin yn ôl yr angen.</p> <p>Mae darlith ar reoli meddyginiaethau gan y Fferyllydd sy'n Arwain wedi cael ei hychwanegu at y rhaglen hyfforddiant gorfodol o fis Medi 2015, ac mae'n rhaid i'r holl staff fynychu. Caiff cofnodion hyfforddiant eu monitro er mwyn gwirio presenoldeb.</p> <p>Mae tueddiadau'n ymwneud â digwyddiadau meddyginiaeth yn rhan o'r sesiwn diweddar rheoli risg fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant gorfodol, ac maent yn cael eu cynnwys yn y cylchlythyrau risg misol.</p> <p>Bydd y goruchwilydd bydwragedd/rheolwyr/arweinwyr obstetreg ar gyfer addysgu'n sicrhau bod staff yn gyfarwydd</p> | <p>Rheolwyr ward Goruchwylwyr bydwragedd Arweinwyr Addysgol</p> <p>Uwch-nyrs/Rheolwyr ward</p> <p>Uwch-fydwraig</p> <p>Rheolwyr ward</p> <p>Goruchwylwyr</p> | <p>8 Medi 2015</p> <p>31 Gorffennaf 2015</p> <p>Awst 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|--|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd drws yr ystafell feddyginiaeth ar Ward 21 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ar glo Nid oedd clo ar ddrws yr ystafell feddyginiaeth (Ward 31, Ysbyty'r Tywysog Siarl). Roedd hyn yn golygu y gallai unigolion heb awdurdod gael mynediad at yr ystafell, a oedd yn cynnwys eitemau a allai fod yn beryglus i blant | <p>â'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwagedd ar gyfer Gweinyddu Meddyginiaethau fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol Staff/Cofnod Datblygiad Personol.</p> <p>Mae codau newydd ar gyfer cloeon wedi cael eu rhoi ar ddrws pob ystafell feddyginiaeth. Cynhaliwyd gwiriad ar hap, a gwelwyd bod y drysau'n cael eu cloi bob amser. Bydd monitro'n parhau fel rhan o'r gwiriadau ar hap rheolaidd.</p> <p>Mae hyn wedi cael ei nodi, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag Ystadau a Diogelwch ynghylch y clo mwyaf addas ar gyfer y drysau. Mae gan yr uwch-nyrs bryderon gan fod angen mynediad i'r ystafell mewn argyfwng, felly mae trafodaethau ar waith ynghylch y clo mwyaf diogel a fydd hefyd yn hawdd i staff ei agor mewn argyfwng. Mae'r gyfarwyddiaeth yn ystyried system ffob. Unwaith y cytunir arno, caiff y costau eu trefnu a chaiff y system ei gosod. Nes bydd y system wedi cael ei gosod, mae'r drysau'n cael eu cadw ynghau, gyda staff yn wyliadwrus i weld pwy sy'n mynd i mewn i'r ystafelloedd. Ni</p> | <p>bydwagedd</p> <p>Pennaeth Ystadau</p> <p>Pennaeth Diogelwch</p> | <p>31 Gorffennaf 2015</p> <p>Tachwedd 2015</p> <p>31 Awst 2015</p> <p>Haf 2016</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|---|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd tymheredd oergelloedd yn cael ei fonitro'n feunyddiol ar Ward 31 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae hyn yn golygu y gellid peryglu cyflwr meddyginiaeth a gedwir yn y fan honno Gwelsom fod y cypyrddau cyffuriau a reolir ar Ward 21 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a'r wardiau pediatrig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi eu gwneud o | <p>chafwyd unrhyw ddigwyddiadau mewn perthynas â risg i blant yn gallu mynd i mewn i'r ystafelloedd hyn.</p> <p>Roedd yr adran yn disgwyl oergell newydd, a hysbyswyd yr arolygydd o hyn. Mae'r oergell newydd wedi cyrraedd bellach, ac mae'r tymheredd dyddiol yn cael ei wirio, ei gofnodi a'i fonitro. Mae cydymffurfiaeth â monitro dyddiol yn cael ei gynnwys yn y gwiriadau wythnosol a gynhelir gan reolwyr y wardiau.</p> <p>Hysbyswyr yr Adran Ystadau. Mae'r broblem hon yn gyffredin i bob ardal glinigol. Bydd rhaglen ailwampio yn dechrau yn hydref 2015 yn unol â Rhaglen De Cymru, sy'n cynnwys gosod cypyrddau addas ar gyfer meddyginiaethau a reolir. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â'r cypyrddau presennol.</p> <p>Mae hyn wedi cael ei nodi, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag Ystadau a Diogelwch ynghylch y clo mwyaf addas ar</p> | <p>Uwch-nyrs Rheolwyr ward</p> <p>Ystadau Fferyllfa</p> <p>Uwch-</p> | <p>30 Gorffennaf 2015</p> <p>30 Tachwedd 2015</p> <p>31</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|--|---|--|
| | <p>fwrdd sglodion yn hytrach na metel. Nid oedd hyn yn gyson ag arfer da</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd y drws i'r ystafell feddyginiaeth ar glo, ac roedd chwistrellau'n hygyrch (ward ddydd plant/uned asesu, Ysbyty'r Tywysog Siarl). Fodd bynnag, nodwyd bod y feddyginiaeth yn yr ystafell honno yn ddiogel a dan glo Canfuwyd stoc fach o hen boteli sbesimen gwaed (meithrin) ar ward ddydd plant/uned asesu yn Ysbyty'r | <p>gyfer y drysau. Mae gan yr uwch-nyrs bryderon gan fod angen mynediad i'r ystafell mewn argyfwng, felly mae trafodaethau ar waith ynghylch y clo mwyaf diogel a fydd hefyd yn hawdd i staff ei agor mewn argyfwng. Mae'r gyfarwyddiaeth yn ystyried system ffob. Unwaith y cytunir arno, caiff y costau eu trefnu a chaiff y system ei gosod. Nes bydd y system wedi cael ei gosod, mae'r drysau yn cael eu cadw ynghau, gyda staff yn wylidwrus i weld pwy sy'n mynd i mewn i'r ystafelloedd. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau mewn perthynas â risg i blant yn gallu mynd i mewn i'r ystafelloedd hyn.</p> <p>Mae rheolwr y ward wedi gwirio'r holl boteli sbesimen gwaed am ddyddiadau; ni chafwyd unrhyw boteli heibio eu dyddiad defnyddio. Bydd staff nyrsio'n ymgymryd â gwiriadau ar hap bob wythnos a fydd yn cynnwys dyddiad dod i ben yr holl boteli sbesimen gwaed.</p> | <p>nyrs/Rheolwyr ward</p> <p>Rheolwr y ward</p> | <p>Gorffennaf 2015</p> <p>Gorffennaf 2015</p> <p>30 Mehefin 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|---|---|
| | <p>Tywysog Siarl. Roedd hyn yn golygu bod posibilrwydd o ganlyniadau profion gwaed anghywir pe baent yn cael eu defnyddio. Tynnwyd sylw'r staff at hyn fel y gellid eu symud o'r ardal glinigol a'u newid</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd diffyg lle yn gyffredinol a dim arwyneb pwrpasol ar gyfer paratoi meddyginiaethau yn uned ddydd cyn-enedigol Ysbyty'r Tywysog Siarl | <p>Nid yw'r Uned Asesu Dydd Mamolaeth (Uned Dydd Cyn-geni) wedi cael ei gosod ar gyfer paratoi meddyginiaethau. Mae bydwragedd sy'n gweithio yn yr ardal hon wedi cael eu hatgoffa na ddylid paratoi cyffuriau yn yr amgylchedd hwn gan fod nifer ohonynt yn arllwysiadau mewnwythiennol ac yn waith ar gyfer dwy fydwraig. Un fydwraig sydd ar staff yn yr ardal. Y weithdrefn sydd ar waith yw bod y fydwraig yn mynd i Ward 21 i ymofyn, gwirio a pharatoi unrhyw feddyginiaethau yn yr ystafell glinigol sydd ar gael yno. Tynnwyd sylw'r staff i gyd at hyn, a bydd yn cael ei fonitro gan y rheolwr ward.</p> <p>Bydwraig Band 7 i gydymffurfio â hyn.</p> <p>Cafodd hyn ei hysbysu a'i gywiro yn ystod yr arolygiad.</p> | <p>Rheolwr y ward Bydwragedd Band 7</p> <p>Rheolwr y ward</p> | <p>30 Mehefin 2015</p> <p>30 Mehefin 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|--|------------------------------------|
| | <ul style="list-style-type: none"> Canfuwyd clo wedi torri ar gwpwrdd cyffuriau (Ward 17, Ysbyty Brenhinol Morgannwg). Fodd bynnag, cafodd y broblem hon ei datrys yn ystod yr arolygiad | | | |
| 19 | <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau cadw cofnodion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn.</p> | <p>Anfonwyd e-bost at yr holl obstetregwyr ymgynghorol a phediatregwyr i godi ymwybyddiaeth a rhannu gyda'u timau. Mae hyn yn ymwneud â'r safonau gofynnol o ran dogfennau ac eglurder y cofnodion, gan gynnwys printio enw a theitl ochr yn ochr â'u llofnod. Mae'r agwedd hon yn cael ei chynnwys mewn archwiliadau dogfennau rheolaidd a gynhelir mewn pediatreg (Archwiliad Dull Sbarduno Pediatreg) a Mamolaeth, sy'n cael eu bwydo yn ôl i'r timau ac yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfodydd archwilio gyda chamau gweithredu yn ôl yr angen. Ymdrinnir â diffyg cydymffurfio gan y goruchwyliwr academiaidd. Mae'r staff meddygol pediatreg wedi cael stampiau llofnod. Mae hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y timau obstetreg.</p> <p>Mae Cronfa Risg Cymru yn cynnal gweithdai yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty'r</p> | <p>Cyfarwyddwyr Clinigol</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth/ a Nyrzio</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Uwch-fydwraig</p> <p>Rheolwr Risg Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwr y ward</p> | <p>20 Awst 2015</p> <p>28 a 29</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--------------|--|--|---|
| | | <p>Tywysog Siarl ar 28 a 29 Hydref mewn perthynas â dogfennaeth a digwyddiadau/pryderon/hawliadau, ac mae'r holl staff obstetreg a phediatreg wedi cael gwahoddiad.</p> <p>Mae dogfennaeth yn cael ei chynnwys yn yr hyfforddiant gorfodol blynyddol i'r holl fydwragedd, gan gynnwys pwysigrwydd cynllunio gofal, yn arbennig mewn perthynas â'r cyfnod wedi geni i ferched â beichiogrwydd cymhleth a ffactorau risg penodol.</p> <p>Cafodd Llwybr Gofal ar gyfer Mamau a Babanod ei ddatblygu'n ddiweddar yn dilyn ymgynghori helaeth a meincnodi ledled Cymru, ar ôl cael ei nodi fel maes i'w wella ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn dilyn digwyddiad clinigol yn 2014.</p> <p>Cafodd y llyfryn ei lansio ym mis Mawrth 2015, ac mae'n caniatáu cynllunio gofal manwl a dogfennau cyfredol wrth drosglwyddo gofal rhwng gweithwyr proffesiynol a'r ysbyty/cymuned, a bydd yr agwedd hon yn cael ei phwysleisio yn y rhaglen hyfforddiant gorfodol gyfredol o fis Medi 2015.</p> <p>Archwiliad i fonitro effeithioldeb/cydymffurfiaeth</p> | <p>Arweinydd Bydwragedd Band 7</p> | <p>Hydref 2015</p> <p>31 Rhagfyr 2015</p> |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|--|---|---|
| | | <p>gyda'r llwybr i'w gwblhau.</p> <p>Mae fformat cynlluniau gofal ar wardiau plant yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, gyda'r nod o wneud gwelliannau i gefnogi gofal unigoleddig.</p> <p>Mae wardiau'r plant hefyd yn cymryd rhan yn yr Archwiliad Pediatrig ym mis Hydref 2015.</p> <p>Cwblhawyd archwiliad cadw cofnodion newyddenedigol ym mis Awst, a bydd yn cael ei gynrychioli yng nghyfarfod archwilio mis Tachwedd.</p> <p>Bydd yr holl asesiadau gofal ar wardiau'r plant yn cael eu hadolygu'n ddyddiol ac yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr Archwiliad Dull Sbarduno Pediatreg misol.</p> | <p>Rheolwyr ward</p> <p>Uwch-nyr</p> <p>Rheolwyr ward</p> | <p>Medi 2015 Hydref 2015</p> <p>Tachwedd 2015</p> |
| 19 | Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod cleifion yn derbyn asesiadau prydlon yn dilyn atgyfeiriad at wasanaethau therapi lleferydd ac iaith. | Nid oes gwasanaeth seiliedig ar y ward ar gyfer therapi lleferydd ac iaith, ond mae atgyfeiriadau'n cael eu trin gan y tîm cymunedol gyda tharged o asesiad o fewn 72 awr gwaith o atgyfeiriad. Os yw'r plentyn yn rhy | Pennaeth Therapiau | Awst 2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|--|------------------|----------|
| | | <p>sâl i gymryd rhan mewn asesiad, yna caiff yr ymyriad ei ohirio nes ei fod yn ddigon da. Os yw'r broblem yn broblem barhaus ac na nodir unrhyw broblemau diogelwch, bydd y cleifion hyn yn cael cynnig apwyntiad claf allanol yn y lleoliad agosaf at eu cartref ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.</p> <p>Ni hysbysodd rheolwr y ward am unrhyw broblemau gydag atgyfeiriadau ac asesiadau amserol gan y tîm therapi lleferydd ac iaith, sydd yn aml yn mynychu'r ward yn ystod amseroedd clinig neu ar ôl clinig ar y diwrnod canlynol yn ôl y gofyn.</p> <p>Ni chafwyd unrhyw doriadau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn perthynas ag amseroedd Atgyfeiriad i Driniaeth ar gyfer therapi lleferydd ac iaith yn unol ag arfer da. Mae prosesau rheoli rhestrau aros da a chydaddoldeb o ran mynediad i bob claf.</p> | | |
| | Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | |

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras):.....

Teitl:

Dyddiad: